**Pencadlys Heddlu Gwent**
**Ffordd Parc Llantarnam**
**Llantarnam**
**CWMBRÂN**
**Torfaen**
**NP44 3FW**

**TRWY GYFRWNG E-BOST**

**24 Awst 2022**

Annwyl Jenny Rathbone AS

**Parthed: Llythyr at y Dirprwy Brif Gwnstabl Amanda Blakeman: Ymchwiliad y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol i drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol**

Roedd yn bleser cyflwyno tystiolaeth gerbron y Pwyllgor ar 27 Mehefin yn rhan o'ch ymchwiliad.

Gweler isod ymatebion mewn perthynas â'r cwestiynau a nodwyd yn eich llythyr dyddiedig 20 Gorffennaf 2022.

***Hoffem wybod pwy sy'n derbyn yr hyfforddiant hwn a pryd maent yn ei dderbyn, er enghraifft, a yw'n cael ei ddarparu yn rhan o hyfforddiant cychwynnol neu ar sail barhaus?***

Mae swyddogion yn derbyn hyfforddiant yn rhan o'u hyfforddiant cychwynnol cyn cael eu hanfon i'r rheng flaen. Darperir hyfforddiant pellach ar ddiwrnodau hyfforddi yn rhan o raglen barhaus, yn arbennig pan ddaw gwybodaeth/deddfwriaeth newydd i law.

Mae heddluoedd yn ymgymryd â hyfforddiant Byw Heb Ofn ar Drais Domestig hefyd.

Mae swyddogion sydd am arbenigo yn y maes CID (Adran Ymchwilio Troseddol) yn derbyn hyfforddiant ychwanegol ar bob agwedd ar amgylchiadau lle mae pobl yn agored i niwed yn rhan o'u cwrs hyfforddiant.

Mae Swyddogion Cyswllt Troseddau Rhywiol (SOLO) hefyd yn derbyn hyfforddiant ychwanegol i'w galluogi nhw i ymdrin â dioddefwyr troseddau rhywiol a chael y wybodaeth a'r dystiolaeth fforensig honno yn y lle cyntaf.

Mae pedwar heddlu Cymru yn rhan o Ymgyrch Soteria. Lansiwyd Ymgyrch Soteria mewn ymateb i 'Adolygiad Hollgynhwysol o Dreisio' y llywodraeth, ac adduned Y Swyddfa Gartref i gynyddu nifer yr achosion o dreisio sy'n cyrraedd llys. Mae tîm Ymgyrch Soteria yn adolygu arferion gwaith mewn heddluoedd ac wedyn yn gwneud argymhellion ar gyfer gwelliant.

***Hoffem wybodaeth benodol ynglŷn â'r hyfforddiant mae swyddogion rheng flaen yn ei dderbyn ar:***

***iaith, yn arbennig mewn perthynas â sut mae heddlu'n cyrchu cyfieithu ar y pryd ar gyfer dioddefwyr nad yw Saesneg yn iaith gyntaf iddynt***

Mae pob swyddog yn derbyn hyfforddiant ar ddefnyddio Language Line (sef y gwasanaeth cyfieithu dros y ffôn) i gynorthwyo unrhyw anawsterau iaith. Diolch i dechnoleg symudol gellir gwneud hyn yn lleoliad y dioddefwr/troseddwr ac o fewn amgylchedd y ddalfa.

Os bydd gofyn, bydd heddluoedd yn defnyddio gwasanaethau BAWSO hefyd i hwyluso cyfathrebu.

***data, a rhannu data, gan gynnwys sut mae hyn yn cael ei gyfathrebu i ddioddefwyr ymfudol trais, cam-drin domestig a thrais rhywiol***

Ar gyfer y dioddefwyr hynny sydd wedi dioddef troseddau cam-drin domestig/trais rhywiol a/neu gaethwasiaeth fodern bydd cynhadledd MARAC (Multi-agency Risk Assessment Conference) yn cael ei chynnal lle y rhennir gwybodaeth gyda phartneriaid er mwyn lleihau risg a rhoi'r mesurau cefnogi perthnasol ar waith. Mae asesiad risg cychwynnol yn cael ei gynnal ar gyfer digwyddiadau/troseddau domestig a gofynnir i'r dioddefwyr am gydsyniad i rannu eu gwybodaeth a thrafodir hyn ar y pryd. Ar gyfer dioddefwyr sydd wedi dioddef troseddau caethwasiaeth fodern byddant yn destun y Mecanwaith Atgyfeirio Cenedlaethol ac unwaith eto bydd hyn yn cael ei esbonio i'r dioddefwr ynghyd â pha wybodaeth fydd yn cael ei rhannu. Os ceir unrhyw rwystrau o ran iaith, bydd naill ai Language Line neu BAWSO yn cael ei ddefnyddio i gynorthwyo cyfathrebu.

Mae swyddogion yn derbyn hyfforddiant ar bob un o'r agweddau hyn fel yr amlinellir uchod ar wahanol bwyntiau yn ystod eu gwasanaeth.

***problemau diwylliannol, fel priodas dan orfod, a'r hyn a elwir yn drais ar sail anrhydedd***

Eto, mae'r rhain yn cael eu cynnwys yn hyfforddiant swyddogion trwy gydol eu gwasanaeth ac mae hyfforddiant pellach pwrpasol wedi cael ei ddarparu gan Karma Nirvana i swyddogion arbenigol er mwyn iddynt allu deall problemau diwylliannol a throseddau trais ar sail ar anrhydedd.

***atgyfeirio, h.y.,gwybod pryd, sut ac at bwy y dylid atgyfeirio pan fydd achos wedi cael ei nodi***

Fel uchod. Mewn achosion o gam-drin domestig a thrais rhywiol domestig bydd yr asesiad risg yn nodi pryd, sut ac at bwy y dylid atgyfeirio. Mewn achosion o




gaethwasiaeth fodern, mae swyddogion yn derbyn hyfforddiant pwrpasol fel yr amlinellir uchod ar y Mecanwaith Atgyfeirio Cenedlaethol a gwasanaethau cymorth megis BAWSO.

Yn ystod sesiwn ymgysylltu a gynhaliwyd gennym yn Abertawe, cawsom glywed enghreifftiau cadarnhaol o sut roedd atgyfeirio at wasanaethau arbenigol wedi gweithio.

***Sut mae enghreifftiau o arfer gorau o'r fath yn cael eu rhannu i sicrhau dull cyson ledled Cymru?***

Ar gyfer troseddau caethwasiaeth fodern - Mae cyd-gysylltydd yn gweithio o fewn yr Uned Troseddau Cyfundrefnol Rhanbarthol (ROCU). Cynhelir nifer o gyfarfodydd hefyd dan gadeiryddiaeth naill ai'r Heddlu, Gwasanaeth Erlyn y Goron neu Lywodraeth Cymru i rannu'r hyn a ddysgwyd.

Mae digonedd o fforymau eraill lle gellir rhannu arfer gorau gan gynnwys Byrddau Diogelu, byrddau Trais Rhywiol a Throseddau Rhywiol Difrifol (RASSO), cyfarfodydd ffurfiol gyda Gwasanaeth Erlyn y Goron ynglŷn â cham-drin domestig a throseddau rhywiol, byrddau VAWDASV a hefyd yn fwy lleol mewn cyfarfodydd Dysgu'r Gwersi a gynhelir gan heddluoedd.

Yn olaf, o ran Troseddau Mewnfudo Trefnedig a throseddwyr mynych yn masnachu menywod ymfudol, nid oes gennym unrhyw achosion yng Nghymru ar hyn o bryd ac nid yw'r heddlu wedi cael ei hysbysu am unrhyw achosion dros y 12 mis diwethaf.

Cofion cynnes

**Dirprwy Brif Gwnstabl Amanda Blakeman**